

Papur Pawb

Pris: 50c

Hydref 2008

Rhif 342

Pennaeth newydd Llangynfelyn - t7



Emyr John

tud 3

Pobl a Phethe

tud 5/7

Ysgolion

tud 15

Ble yn y byd?

tud 16

Chwaraeon

Garej Ffwrnais – Diwedd Cyfnod

Wedi 37 o flynyddoedd, mae'r pwmp petrol yn Ffwrnais wedi sychu. Nid prinder petrol yw'r rheswm am y sychder, nac effaith yr holl haul a gawsom yr haf yma (!), ond yn hytrach ymddeoliad John a Karen Thomas. Ers y 1af o Orffennaf 1972, bu'r ddau yn rhedeg Garej 'Artist Valley' yn y pentref, ond yn anffodus nid oedd modd gwerthu'r fusnes fel y mae, ac felly ar ddiwedd Medi 2008 daeth diwedd cyfnod yn hanes y garej a'r ardal gyfan.

Yn ogystal a gwerthu tannwydd a chynnig gwasanaeth atgyweirio a chynnal, roedd y garej hefyd yn rhedeg siop yn gwerthu nwyddau amrywiol a phapurau newydd. Ers rhai blynyddoedd bellach, y garej oedd yr unig fusnes oedd yn darparu i anghenion trigolion Ffwrnais, Eglwysfach a Glandyfi, ac felly bydd ei chau yn golled fawr i'r ardal.

Gwelwyd llawer tro ar fyd ers 1972. Y pryd hynny, 34 ceiniog y galwyn oedd pris petrol. Dros y blynyddoedd sylwodd John fod y gwerthiant tannwydd yn lleihau wrth i foduron gynyddu eu effeithioldeb, tra fod mecanwaith y ceir yn cymlethu yn aruthrol.

O gwrdd a'r cyhoedd o ddydd i ddydd mae ganddynt amryw o



atgofion digri a dwys. Yr un mwyaf ysgytwol oedd pan fu cwsmer farw tra'n cael petrol. Digwyddodd hyn flynyddoedd

yn ôl, yn y cyfnod pan John fyddai'n gweithio'r pwmp. Llwyddwyd i ymdopi â'r sefyllfa anodd yma, ac ni chafwyd

digwyddiad tebyg iddo byth wedyn.

Daeth llawer i berson enwog heibio'r garej, yn eu plith Sir John Mills, yr actor John Thaw, yr aml-dalentog Rolf Harries ac wrth gwrs Robert Plant (aelod o'r band Led Zepelin sy'n berchen Dolgoch, yng Nghwm Einion).

Dymuna John a Karen ddiolch i'w holl gwsmeriaid am eu cefnogaeth â'u cyfeillgarwch dros y blynyddoedd. Hoffai Papur Pawb hefyd fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch iddynt hwythau am eu gwasanaeth i'r ardal, ac am werthu Papur Pawb i drugolion Ysgubor y Coed. Dymunwn yn dda iddynt yn eu hymddeoliad.



John a Karen Thomas

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn ac Ann a'i wyres Alison ar golli eu tad sef Mr Albert Ward, Frondêg, Taliesin. Bydd ei gymdogion yn gweld colli ei wên siriol bob amser. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn a theulu Llety Ifan Hen a wynebodd ddwy brofedigaeth o fewn y mis. Collodd Mrs Davies ei chwaer sef Mrs Annie Evans ym Mronant ar ôl cystudd hir a blin. Yn ogystal ychydig ddyddiau yn gynt bu farw Mr Geraint Morgan, Pwllglas, Dole, brawd yng nghyfraith Emyr ac yntau hefyd wedi dioddef salwch hir. Anfonwn ein cofion cywiraf atynt fel teulu.

Cydymdeimlwn yn fawr â Dei, Jen, Sion, Rhydian, Hefin a Medi Neuaddfawr ar golli mam a mamgu annwyl iawn sef Mrs Annie Evans, Bronant, mam Jen. Anfonwn ein cofion cywiraf atynt hwythau hefyd.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Luned Williams, Cynnull Mawr ar golli ei thad Edward John Morgan, Tynrhos gynt.

Geni Wyr


Llongyfarchiadau i Judith a David, Brynceulan ar enedigaeth wŷr. Ganwyd mab bach i Alison a'i phriod yn Llanarth. Llongyfarchiadau hefyd i Erfyl a Betty Foulkes, Taliesin ar enedigaeth wŷr bach newydd sef Lewys Antony, mab i Shelley ag Antony a brawd bach i Libby.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Andrew a Lesley, Ffwrnais ar enedigaeth merch fach Eva, wyres gyntaf i Neil a Audrey Lewis a gor wyres i Llew Hennighan, Maes Clettwr, Tre'r Ddol. Llogyfarchiadau i Gary a Kathrine Jones, Llwynadda ar enedigaeth eu mab bach Mathew. Gobeithio fod Mathew yn gwella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Diolchgarwch

Pleser o'r mwyaf oedd cael cyfle i groesawu'r Parch H Gwynne Lewis, Aberaeron fel pregethwr gwadd yng ngwasanaeth diolchgarwch Eglwys Elerch ar Fedi 26ain. Cafwyd cynulleidfa deilwng iawn a diolch i aelodau'r eglwysi a chapeli'r ardal am eu cefnogaeth. Mwynhawyd paned ym Mhantgwyn yn dilyn y gwasanaeth.



Ymddeoliad

Yn y llun gwelwn Medi Evans, Neuadd Fawr, a Billy Swanson yn cyflwyno rhodd ar ran disgyblion Ysgol Tal-y-bont i Mrs Myfanwy James ar achlysur ei ymddeoliad yn ddiweddar.



Priodas

Llongyfarchiadau i Sioned, merch hynaf Dilwyn a Carys Jones, Llys Eleri, Tal-y-bont ac Alun Tobias o Gapel Dewi, Caerfyrddin ar eu priodas yng Nghapel Rehoboth, Taliesin ar Fedi'r 13eg. Treuliodd y ddau eu mis mêl yn teithio yn Ne'r Affrig ac Ynys Mauritius. Pob dymuniad da i'r ddau.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Gareth Jones, Maes Clettwr ac Ellen Jones, Llys y Bryn, Tre'r Ddol a Mrs Ebenezer, Maes y Deri, wedi cyfnod yn yr ysbyty. Anfonwn ein cyfarchion at Ann Humphreys, Taliesin, David Evans, Tanllan, Llangynfelyn a Gary Jones, Llwynadda a'r Fferyllfa Tal-y-bont ill tri adre bellach ar ôl treulio cyfnod ym Mronglais. Dymunwn wellhad buan i Paul Dewhurst, The Bungalow, Tal-y-bont ar ôl derbyn triniaeth mewn ysbyty ger Caerdydd.

Bedydd

Ar ddydd Sul 28ain o Fedi yn Eglwys y Santes Fair tu hwnt i'r Muriau yn ninas Caer, bedyddiwyd Madoc Richard Owen, mab Tom a Shelley Rees ac wŷr bach Mrs Jacqui Francis a'i diweddar briod Richard, Plas Cefn Gwyn, Bontgoch. Dymuniadau gorau iddynt oll.

Wyau Ffres

Mae trigolion Bontgoch yn ffodus iawn o gael mwynhau wyau ffres. Gellir prynu wyau hyfryd gan lanto, Pennant ac Ann, Tanycae.

Penblwydd Hapus

Dymuniadau gorau i Gwyn Jones, Pensarn a ddathlodd ei benblwydd yn 18 oed yn ystod y mis.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Rhian Griffiths, Eglwysfach gynt ar ei dyweddiad gyda Llion Jones, Penrhyndeudraeth.

Ras Hwyaidd Llanfach, Taliesin

Hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, yn enwedig i'r plant a fu'n achub yr hwyaid o'r afon. Dyma'r enillwyr:
1. Rhif 329 K. Birkinshaw, Romans, Taliesin
2. Rhif 48 Aled Jones, Llys-y-Bryn, Tre'r-ddôl
3. Rhif 124 F.B.S. d/o Roland Davies, Dolclettwr

C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch
Noson gwneud Cebysr gyda Huw Hopkins
14 Hydref, 8 o'r gloch

Noson Guto Ffowc, Tynant
4 Tachwedd, 7 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb.



Geraint Lovgreen a rhai ffrindiau - Chwb Nos Wener



Teulu Penwern yn y diwrnod agored yn ddiweddar gweler tudalen 12



Ysgol Sul Bethel Tal-y-bont

▲ Ar brynhawn braf o haf bach Mihangel, aeth aelodau Ysgol Sul Bethel ar ymweliad a Chapel Saron, Llanbadarn Fawr. Roedd yr Ysgol Sul wedi derbyn gwahoddiad i gynnal gwasanaeth yno ar Fedi'r 21ain.

Thema'r gwasanaeth oedd 'Byd Duw' a llwyddodd y tywydd bendigedig i ychwanegu at y gwasanaeth.

Byrthefnos yn unig a gafwyd i baratoi ac i ymarfer, gan nad oeddem wedi cyfarfod yn ystod yr haf. Ond, fel sy'n digwydd bob tro, daeth y cyfan at ei gilydd erbyn y Dydd Sul. Roedd cyfraniadau'r plant, ieuenctid (a'r oedolion!) yn hynod raenus a chafwyd eitemau offerynnol a lleisiol, gydag Anwen Jenkins yn cyfeilio i ni ar yr organ, darlenniadau a sgetsus i greu gwasanaeth amrywiol a bywiog.

Ar ddiwedd yr oedfa, mwynhawyd te prynhawn ardderchog yn y festri cyn dychwelyd i Dal-y-bont.

Ein trip Ysgol Sul eleni oedd taith i Lanelwedd i wyl 'Diwrnod i'r Brenin'. Ac yna ar y ffordd adre, treuliyd orig yn nghanolfan chwarae dan do 'Quackers'. Barnwyd i'r trip fod yn un llwyddiannus iawn.

Cynhelir oedfa ddilchgarwch Ysgolion Sul yr ofalaeth ym Methel, Hydref 12fed.



Eleri ac Anwen yn gweini'r bwyd ar gyfer noson y Sosial Fawr

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Ymddeoliad Mrs Myfanwy James

Cynhaliwyd parti ffarwel arall yn yr ysgol ar ddechrau'r mis a hynny am fod Mrs Myfanwy James wedi ymddeol o'i gwaith yn y gegin a hithau bellach yn 70 oed. Ar ran holl gymuned yr ysgol, hoffwn ddiolch o galon iddi am ei gwasanaeth dros y 10 mlynedd diwethaf ac er ein bod yn drist iawn ei bod wedi ein gadael, mae gennym lu o atgofion hapus amdani. Cafwyd parti bach yn yr ysgol i ddymuno'n dda iddi a hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r trefniadau.

Rwy'n siŵr y bydd y plant, y rhieni, y staff ac yn enwedig Mrs Jones yn gweld ei heisiau, ond rwy'n gobeithio y bydd yn dal i alw mewn o dro i dro i gael sgwrs a chlonc gyda ni. Pob hwyl i chi Mrs James a dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol. Y newyddion da yw y bydd Mrs James yn dal i gasglu arian cinio am y tro.

Cyngor Ysgol

Aelodau'r Cyngor Ysgol am eleni yw Billy Williams, James Evans, Tara Howard, Rachael Peterson, Mari Lewis, Bryn Dennis, Josh Abbott, Betsan Siencyn, Gerallt Jenkins, Emily Sweeney, Aled Jones. Llongyfarchiadau mawr iawn i chi am gael eich hethol.

Ymweliad â Fferm Tyngraig

Ar y 15fed o Fedi bu'r plant lleiaf yn ymweld â fferm Tyngraig. Cawsom groeso cynnes unwaith eto gan Mr a Mrs Jenkins a Dewi. Gwelsom nifer o anifeiliaid y fferm a chawsom gyfle i gasglu wyau a gweld y ci defaid ar waith. Mwynheuom gacennau blasus Mrs Jenkins. Cafodd y plant gyfle i enwi un o gŵn bach y fferm - llongyfarchiadau i Tomos Jenkins ar ddewis yr enw, sef Dot.

Barbeciw a Chyngerdd Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i David Hughes-Jones, Julian Thomas a Llinos Jones o Fanc Barclays, Aberystwyth am eu cefnogaeth i'r barbeciw eto eleni. Cafwyd noson wych gyda safon uchel o berfformiadau gan blant Blwyddyn 6. Diolch i bawb am drefnu.

Taith Gerdded yr Ysgol


Er gwaethaf y tywydd cyfnewidiol cafwyd diwrnod arbennig iawn. Bu'r plant lleiaf yn cerdded ar hyd y llwybr drwy Allt y Crib a'r plant hynaf yn cerdded ymhellach o gwmpas y pentref. Diolch yn fawr iawn i aelodau'r Gymdeithas Rieni am ein cynorthwyo a diolch yn fawr iawn hefyd i gwmni dŵr Tŷ nant am ein nodd.

Ymweliad Llio

Braf oedd croesawu cyn ddisgybl i'r ysgol yn ystod y mis. Daeth Llio James, sy'n fyfyrwraig yng ngholeg Celf Manceinion, i ddosbarth 3 i ddangos ei gwaith gwehyddu ac i gynnal gweithdy gwehyddu gyda'r plant. Mwynhaodd y plant ei chwmni'n fawr.

Cronfa Arian i Bawb

Cawsoch wybod yn y rhifyn diwethaf o Bapur Pawb fod yr ysgol wedi ennill grant sylweddol gan "Arian i Bawb". Fel rhan o'r grant, rydym am wahodd pobl ardal Tal-y-bont i'r ysgol i gael dysgu ac ymarfer eu sgiliau ar y cyfrifiadur. Byddwn yn cynnal dwy "sesiwn blasu" yn ystod y mis i fesur y galw. Cynhelir y cyntaf ar Nos Fawrth 14eg o Hydref yn canolbwyntio ar brosesu geiriau a'r ail ar 21ain o Hydref yn canolbwyntio ar sgiliau Powerpoint. Bydd y sesiynau'n dechrau am 8.00 o'r gloch ac yn para am awr. Bydd sesiynau eraill yn dilyn dros fisoedd y gaeaf. Croeso cynnes i bawb. Os oes rhywun yn dymuno helpu yn y nosweithiau, mae croeso cynnes i chwithau hefyd.



Fferm Berthlwyd

Ar fore braf cerddodd y dosbarth draw i Fferm Berthlwyd i glywed hanes y fferm ac i weld amrywiaeth o beiriannau, defaid a llysiau organig. Roedd y plant wedi paratoi amrywiaeth o gwestiynau i Mr a Mrs Jones. Bu'r ymweliad yn brofiad gwerthfawr a mawr yw ein diolch, unwaith eto, i deulu Berthlwyd am y croeso cynnes.

Sbwriel!

Un penwythnos ym mis Medi es i, Elwyn a'r teulu am dro i'r traeth yn Aberystwyth. Cawsom sioc enfawr o weld cymaint o sbwriel oedd ar hyd y lle. Fe aethom am dro i draeth Borth yr un penwythnos ac roedd llawer o sbwriel yno hefyd. Penderfynom ni godi'r sbwriel ac fe wnes i nodyn o'r sbwriel i gyd.

Ar draethau Aberystwyth a Borth fe ffindiom ni:

132 potel blastig
17 potel wydr
5 bag plastic
56 can diod
17 pecyn o greision
6 pecyn BBQ
1 esgid
1 brwsh danedd
1 minlliw
1 pot planhigion
3 goleuwyr tân ac
1 par o bants!

Clwb 200 Ysgol Tal-y-bont 2007-2008

Hoffai Janet, Rachael ag Ysgol Gymunedol Tal-y-bont ddiolch i bawb a wnaeth gyfrannu drwy brynu tocyn/nau Clwb 200 ac i'r rhai a wnaeth eu gwerthu. Gwerthfawrogi pob cefnogaeth.

Bydd Janet a Rachael wrthi'n gwerthu tocynnau Clwb 200 ar gyfer 2008-2009, os hoffech brynu tocyn/nau cysylltwch â ni (Janet Evans 01654 781260, Rachel James 01970 832729).



Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Wrth i'r flwyddyn academiaidd newydd gychwyn, mae'r Cynulliad hefyd yn ailymgynnull ym Mae Caerdydd. Er i'r tywydd ddechrau gwella yn ddiweddar, fe arweiniodd y tywydd gwlyb a gafwyd yn ystod mis Awst at orfod canslo nifer o ddigwyddiadau yng Ngheredigion ar fyr rybudd. Fodd bynnag, fe wnes fynychu'r sioe yn Nhregaron ac er ei bod ychydig yn wahanol i'r arfer wedi i'r trefnwyr leihau'r nifer o gystadlaethau a chynnal y sioe yn Neuadd Goffa'r dref, fe ddaeth tyrfa dda i gefnogi.



Dros fisoedd yr haf fe ddaeth pryderon am ddyfodol y Brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan i'm sylw, ac fe drefnais gyfarfod gyda Gweinidog Addysg y Cynulliad, Jane Hutt AC, ar ddechrau mis Medi i drafod y sefyllfa. Y Brifysgol yw un o'r prif gyflogwyr yn ardal Llambod ac fe allai'r ansicrwydd presennol gael effaith fawr ar yr economi leol. Mae'r Gweinidog Addysg nawr wedi cadarnhau y bydd y Brifysgol yn derbyn pob cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn a gobeithiaf y bydd modd cymryd camau i gryfhau'r sefydliad.

Rwyf hefyd yn bryderus am ddyfodol cynlluniau ar gyfer ysbyty newydd yn Aberteifi. Yn dilyn penderfyniad Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad y Baddondy – oedd i gynnwys ysbyty, meddygfa ac archfarchnad newydd – fe fynychais gyfarfod gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth Iechyd Hywel Dda i drafod y mater. Yn ystod y cyfarfod fe godais yr angen i ystyried lleoliadau posib eraill yn nhref Aberteifi ar gyfer yr ysbyty newydd. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth Iechyd nawr yn edrych ar y lleoliadau yma'n fanylach dros yr wythnosau nesaf ac rwy'n gobeithio y cawn gytundeb ar leoliad ar gyfer yr ysbyty newydd cyn hir er mwyn symud yn agosach at ddarparu adnewdd iechyd newydd ar gyfer yr ardal.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

RALI FLYNYDDOL

www.cymdeithas.org



**Mesur Iaith Cyflawn
Y RHYBUDD
OLAF**
2pm Sadwrn
Hydref 25ain
Canolfan Morlan
Aberystwyth

Sparadwyr: Elin Haf Gruffudd Jones
Galen Lewis, Hywel Griffiths

Nos Wener
Hydref 24ain
7.30pm
**AGORIAD
SWYDDOGOL**
SWYDDFA NEWYDD Y CYMDEITHAS
Yscollel 3, Y Canbrian, Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ewchoddedigian arbennig: Gwilym a Mogan Talar
Cyfarchio gan ffordd ac eroll. Gwini i lawr

Dydd Sadwrn, Hydref 25ain 10.30am-1pm
CYFARFOD CYFFREDINOL
Canolfan Morlan, Aberystwyth

Big PWS – Y Gwydeithas yn Cefnogi Cerdodion Cymru
GAN TOMS, WYRLIGIGS, Y BANDANA
Nos Sadwrn Hydref 25ain / Telfm y Clips, Aberystwyth

Os am daesi neu fws mini

CAMBRIAN CABS

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

CEFNOGIACH CYMRO LLEOL

H. LLOYD WILLIAMS
CYNNAL A CHADW' GERDDI
TORTI POMF A SIETYN,
GOSOD DECKING A SLABAU

DOES DIM FRY CHWEDD O WALTHAM

33 Dyrnall
Blow Street

Ffôn: 01970 820499
Symbol: 07958 508515



**HUW
LEWIS**



**M.O.T.
CENTRE**

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT



TEIARS
**HUW
LEWIS**



TYRES

Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

Rhodfa'r Parc

HUWLEWISTYRES.COM



Ffôn 01970 636774

Ysgol Gymunedol Llangynfelyn

Croeso nôl i bawb ar ôl gwyliau'r Haf. Mae pawb yn barod ar gyfer blwyddyn addysgiadol prysur eto eleni, ac yn wir, mae'r prysurdeb hwn wedi dechrau yn barod yma yn Ysgol Llangynfelyn.

Disgyblion newydd

Croeso cynnes iawn i ddau disgybl newydd sydd wedi ymuno â'r Dosbarth Derbyn, sef Ben Phillips a Ruby Indeka. Rydym yn gobeithio bydd eich amser yma yn Ysgol Llangynfelyn yn un hapus iawn.



Trip i weld Castell Caeriw

Ar ddydd Llun Medi 29ain, gwariodd dosbarthiadau Mr John a Mrs Nelmes ddiwrnod yng Nghastell Caeriw, Sir Benfro. Nôd y diwrnod oedd dysgu sut roedd pobl yn byw adeg Oes y Tuduriaid. Cafwyd diwrnod pleserus iawn efo staff y Castell – cafodd pawb y cyfle i wisgo yn nillad y cyfnod a bod yn rhan o wahanol weithgareddau a oedd yn dangos sut oedd bywyd yn arfer bod yn y castell. Dysgwyd llawer hefyd am hanes Harri Tudur a Syr Rhys ap Tomos.

Mae'r lluniau yn dangos grŵp o blant yr ysgol wedi gwisgo yn nillad yr oes, efo Morgan yn y canol fel Harri Tudur, Castell Caeriw ac yna Harri VII a Syr Rhys ap Tomos, sef Jay.



Music Fest

Cafwyd brynhawn o gerddoriaeth yng nghwmni criw o bobl egniol yn ymwneud a cherddoriaeth ar ddydd Iau Hydref 2il. Dysgwyd am fywyd yn y gerddorfa, a chafodd nifer o'r disgyblion y siawns i chwarae eu offerynnau efo'r gerddorfa. Roedd y plant wrth eu boddau yn dysgu am y gwahanol offerynnau a chlywed y gwahanol swn. Uchafbwynt y prynhawn oedd clywed y gerddorfa yn chwarae efo'u gilydd.

Pennaeth Newydd Ysgol Llangynfelyn

Dechreuodd Emyr John ar ei swydd newydd fel Pennaeth Ysgol Gymunedol Llangynfelyn ddechrau mis Medi. Yn enedigol o Maenclochog, Sir Benfro, cafodd ei addysg yn yr ysgol gynradd leol ac yna Ysgol Gyfun y Preseli. Aeth ymlaen i Goleg Sir Benfro i wneud Diploma mewn Gofal Cymdeithasol cyn astudio ym Mhrifysgol Bangor ac yna Prifysgol Aberystwyth.

Dechreuodd ei yrfa fel athro yn Ysgol Gynradd Tonyrefail cyn symud i Geredigion fel Dirprwy yn Ysgol Gymunedol Craig yr Wylfa, Borth. Felly, nid yw ardal Papur Pawb yn hollol ddieithr iddo. Yn dilyn hyn, cafodd swydd fel Pennaeth yn Ysgol Gymunedol Pennal. Yn ystod y cyfnod yma, cafodd y cyfle i groesi'r Iwerydd, i Batagonia, ac felly tra fod y wraig yn dysgu plant y Wladfa, cafodd Emyr y cyfle i brofi awyrgylch unigryw y wlad.

Llongyfarchiadau iddo ar ei benodiad, ac rwy'n siŵr bydd colofnau Papur Pawb yn cyfnodi llafur a llwyddiant yr ysgol a'i Phennaeth newydd dros y misoedd i ddod.

Dilyn taith y Boda – O Gymru i Orllewin Affrica

Trwy ddefnyddio y dechnoleg lloeren ddiweddaraf mae'r cwmni ymchwil ecolegol Cymreig 'Ecologymatters' sydd wedi ei leoli yn Nhal-y-bont wedi medru dilyn taith dau foda mêl, un gwryw a menyw, wrth iddynt fudo o Gymru i Affrica. Dyma'r tro cyntaf erioed i unrhyw un fedru dilyn taith o'r fath a hynny mewn manylder. Llwyddir i wneud hyn a recordio'r cyfan yn Nhal-y-bont drwy ddarllen pylsau radio oddi ar dagiau wedi eu gosod ar y ddau foda, a caiff rhain eu pweru gan ynni'r haul.

Mae sawl theori'n bodoli am yr hyn sy'n cymhell taith aderyn wrth fudo ac mae'r cwmni'n gobeithio y bydd y data a gesglir gan y tagiau yma o gymorth i wyddonwyr yn eu gwaith. Cred rhai fod y Boda'n defnyddio maes magnetig y ddaear i chwilio'r ffordd. Er nad oes neb wedi medru profi hyn eto mae'r data a dderbyniwyd hyd yma yn Nhal-y-bont yn cadarnhau fod gan y boda mêl allu cynhenid i weithio allan y daith i'r Affrig a hynny dros y pellter byraf a chan osgoi tiroedd anodd.

Mae'n rhyfeddol y pellter y mae'r boda yn medru hedfan mewn diwrnod a hynny weithiau dan amodau digon anodd. Er enghraifft yn ystod dechrau Medi roedd y boda gwryw yn hedfan dros y Sahara gan wneud pellter o 370km ar y diwrnod cyntaf, 564km ar yr ail a 341km pellach ar y diwrnod olaf ar y 7fed o Fedi. Mae'n anodd dirnad y pellter mewn gwirionedd.

Mae'r boda mêl yn rywogaeth prin sy'n gyfrinachgar wrth anian ac yn greadur hynod breifat. O'r herwydd ni wyddom fawr ddim am ble y byddant yn treulio'r gaeaf na pha lwybrau y byddant yn eu dilyn wrth fudo – cwestiynnau y gobeithir y bydd 'Ecologymatters' yn medru cynnig atebion iddynt maes o law. Fe fydd modd dilyn eu symudiadau yn y meysydd bridio, ac yn ardaloedd eu helfa a'u patrymau hel a bwyta o ddydd i ddydd. Mae'r cwmni'n gobeithio medru dilyn eu taith dros y gaeaf ac yna eu taith yn ôl i Gymru. Os y bydd y prosiect yn llwyddiant mae'r cwmni'n gobeithio tagio mwy o adar yn y dyfodol gan gynnwys rhywogaethau eraill o adar. Medrwrch ddilyn hynt a helynt y ddau foda mêl ar wefan y cwmni: www.ecologymatters.co.uk.

Torri Record Byd

Nid yn aml y bydd Papur Pawb yn cael y frain't o longyfarch un o drigolion yr ardal ar dorri record byd. Braf iawn felly yw medru llongyfarch y peilot Patrick Laverty, Heulwen Haf, Tal-y-bont ar gyflawni dwy record byd answyddogol ar y 13eg o Fedi eleni a hynny uwchben Tal-y-bont ei hun mewn barcutwr (hang glider).

Dechreuodd Patrick ymwneud â'r gamp ym 1975 gan dorri record Prydain am hedfan y pellter mwyaf mewn barcutwr heb bwêr yn 1986 gan hedfan 135 milltir o Gemmaes i Grantham yn Swydd Lincoln. Yn y flwyddyn 2000 aeth ati i ddylunio ei uned bwêr ei hun a hwnnw mae'n defnyddio erbyn hyn i hedfan y barcutwr. Mae'r peiriant yma'n ei alluogi i godi o'r ddaear gyda'i draed yn dilyn rhedeg ar hyd cae hollol wastad.

Ar y 13eg o Fedi cododd Patrick o'r ddaear ar 600 troedfedd uwchben lefel y môr gan ddringo'n defnyddio'r uned bwêr i uchder o 15,316 troedfedd (4,668m) uwchben Tal-y-bont. Wrth wneud hynny torrodd ddwy record byd ar gyfer barcutwr wedi ei bweru a lawnswyd a throed. Un am ddringo'r uchder mwyaf a'r llall am gyfanswm y troedfeddi a ddringwyd. Tipyn o gamp yn wir ac yn fwy



arbennig wedyn o gofio mai Patrick ei hun ddyluniodd ei harnes a'i uned bwêr.

Er mai yn ystod mis Medi y cyflawnwyd y gamp nododd Patrick ei bod yn oer iawn y diwrnod hwnnw a bod yr haul yn isel ac yn hynod o lachar, oedd yn gwneud darllen y GPS yn anodd. Llongyfarchiadau mawr iddo ar ei ymdrechion ac am roi statws arbennig i ardal Tal-y-bont yn llyfrau record y byd. Gellir gweld y daith ar YouTube: www.youtube.com/watch?v=NtiANJ61JqI



Cwmni Drama Licyris Olsorts



Bu'r misoedd diwethaf yn gyfnod digon prysur i'r cwmni drama lleol Licyris Olsorts. Er mai yn neuadd Rhydypennau, Bow Street mae'r cwmni'n cyfarfod mae'r aelodau yn dod o ardal eang a nifer o ddalgylch Papur Pawb.

Bu'r cyfarwyddwr Sion Pennant, Pen y Gro, Bontgoch yn brysus dros y gaeaf yn cynhyrchu dwy ddrama ar gyfer mynychu'r gwyliau drama ar draws Cymru. Cyfieithiad Emyr Edwards o ddrama Alan Ayckbourn oedd un sef 'Rhwyng pob Cegaid' a'r cast yn cynnwys Rhian Glanrafon a Catrin a Siôn Glyn, Y Bwthyn, Fagwyr. Bu'r cwmni yn cystadlu yng Nghorwen ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn ddigon ffodus i gipio'r wobwr gyntaf yng Ngŵyl Ddrama Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen Ponrhydfendigaid yn ystod mis Mai. Trist yw nodi mae cwmni Licyris Olsorts fydd y rhai olaf mae'n debyg i gipio'r wobwr honno yn dilyn y penderfyniad i ddod a'r ŵyl i ben.

Yr ail ddrama fu'n cystadlu oedd cynhyrchiad o 'Dail Tafol' o waith Eigr Lewis Roberts a addaswyd i'r llwyfan gan Mair Penri. Daeth llwyddiant i'w rhan hwythau hefyd a'r cast yn cynnwys Eleri Cwmudw gan gipio'r drydedd wobwr yng Ngŵyl Groeslon ac yna cipio'r prif wobwr yng Ngŵyl Eisteddfod Powys a gynhaliwyd eleni yng Nghorwen. Perfformiwyd y ddwy ddrama yn Neuadd Rhydypennau ar nos Iau, Hydref 2il ac edrychwn ymlaen at weld mwy o gynhyrchiadau gan y cwmni.

Menter Werdd Newydd

Diddorol iawn ychydig wythnosau yn ôl oedd darllen yn y wasg am fenter newydd y cwmni Protomax o Abertawe sydd wedi datblygu'r dechnoleg i wneud paneli plastig cryf a drysau sy'n ddiogel rhag bwledi allan o unrhyw gymysgedd posib o ddeunydd gwastraff – gan gynnwys bagiau plastig a photeli diodydd, cydrannau metel a hen ddillad. Un sy'n chwarae rhan ganolog yn y fenter yw Glyn Ovens sy'n hanu o Tanycae, Tal-y-bont. Glyn yw rheolwr cynhyrchu'r cwmni ac mae'n braf gweld gŵr ifanc yn rhan o gwmni Cymreig bach sy'n datblygu'n llwyddiannus ac sy'n annog arfer da amgylcheddol ar yr un pryd.



Taith Gerdded Clwb Nos Wener

Pethau prin y dyddiau hyn yw prynhawniau mor brâf ag y cafwyd gan griw bach o ffyddloniaid a ffrindiau Clwb Nos Wener wrth ddal bws Arriva i Landyfi ddydd Sadwrn olaf mis Medi.

Dan arweiniad Rhys a Trish Huws, dilynwyd llwybr a ddringai lethrau coediog Cwm Llyfnant cyn disgyn drachefn i lan afon Llyfnant gan groesi pompren i'w hochr ddeheuol. O'r fan honno aed ar hyd lonydd cul a serth ardal Glaspwll nes cyrraedd yr olygfa wych uwchben tref Machynlleth ac i lawr yr hen risiau llithrig i gyrion Plas Machynlleth. Rhyw chwe milltir o daith yn ôl y rhai a oedd â theclyn mesur pethau felly, ond cystal oedd y cwmni a'r ymgom prin i neb sylwi ar y pellter.

Ym Machynlleth ei hun, ymrannodd y criw gyda rhai'n mynd am baned ymlaciol yn y Wynnstay ac eraill yn penderfynu mynd am bryd o fwyd a diod gadarnach yn nhafarn y Blingwyr gan ddal y bws yn ôl yn nes ymlaen. Enghraifft glodwiw o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus at ddibenion hamdden a chyfle i fwynhau prynhawn cwbl Gymraeg a'r wlad yn edrych ar ei gorau.

Martin Dafis

Y Doniol a'r Dwys - Agor Clwb Nos Wener

Daeth tyrfa dda iawn ynghyd i noson gyntaf tymor newydd Clwb Nos Wener yn y Llew Du ar y 27ain o Medi. Yn serenennu ar y llwyfan oedd Geraint Lovgreen, yr arweinydd band a'r bardd, Y Prifardd Iwan Llwyd sydd hefyd yn fasydd gitar ac yn ganwr (fel y clywon ni am y tro cynta yn y Clwb!), a'r cerddor lleol Einion Gruffudd, ar y sacsoffon. Cafwyd noson arbennig iawn yn cyfuno cerddoriaeth a barddoniaeth, llawer yn ddigri a dieifiol a chyfoes, ond gyda rhai eitemau dwys a phrydferth. Roedd yn brofiad arbennig i gael mwynhau noson mor gartrefol a chynnes ei naws, gyda chymaint i gosi'r pen ac i dynnu hefyd, weithiau, ar dannau'r galon! Heb os, dyma enghraifft o Glwb Nos Wener ar ei orau – a does dim rhyfedd bod cynifer o artistiaid wrth eu boddau yn cael gwahoddiad yma!

Mae'r Clwb yn ddiolchgar iawn i'r Llew Du am ddarparu prydau bar am y tro cyntaf i'r Clybwyr am ddim ond £5 y pen, heb sôn am stafell mor braf. Cynhelir y noson nesaf nos Wener, Hydref 17. Mae'r artist i'w gadarnhau ond bydd Y Lolfa, cyn y noson ei hun, yn lansio nofel newydd feistrolgar Martin Dafis, Tonnau Tryweryn. Croeso i bawb – a glasied o win am ddim!

Robat Gruffudd

Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont



Cynhaliwyd Bore Coffi ar fore Sadwrn, 20 Medi yn y Neuadd Goffa. Buom yn lwcus iawn o ran y tywydd ac mi roedd yn braf gweld cymaint o bobl y pentref wedi dod i gefnogi'r achlysur ac i fwynhau paned a chymdeithasu. Hefyd, cawsom gynrychiolaeth dda o Eglwysi Llanfihangel Genau'r Glyn a Llangorwen.

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i wneud yr achlysur yn un llwyddiannus ac am y cyfraniadau a dderbyniwyd oddi wrth y rhai a oedd wedi methu bod yn bresennol. Erbyn hyn, mae'r swm a wnaed yn ystod y bore wedi cyrraedd dros £400.00. Mi fydd y swm yma yn help mawr tuag at y gwaith a wnaed i atgyweirio'r gloch.

Dysgu trwy chwarae!

Mae cwmni cyhoeddi Atebol o Dalybont newydd gyhoeddi dwy gêm newydd ar gyfer dysgu ysgrifennu a rhifo trwy chwarae. Mae'r gêm gyntaf sef **Sgwennu a Sychu - Ysgrifennu** yn helpu plant ifanc i adnabod geiriau a gwella sgiliau darllen ac ysgrifennu. Gallwch ysgrifennu ar y cardiau cyn eu sychu â chlwt. Mae'r ail gêm sef **Sgwennu a Sychu - Rhifau** yn helpu plant ifanc i adnabod ac ysgrifennu rhifau. Mae'r gemau deniadol yma'n ddwyieithog ac yn addas hefyd i blant sy'n dysgu'r Gymraeg. Dyma gemau sy'n rhoi cyfle i blant ifanc i ddysgu ysgrifennu a rhifo drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar gael o'ch siopau llyfrau lleol. www.atebol.com



Llond trelar o hwyl!

Mae **Chwarae a Dysgu ar y Fferm** newydd ei gyhoeddi gan gwmni Atebol. Mae Chwarae a Dysgu ar y Fferm yn cynnwys jig-so enfawr, blociau chwarae a llyfr ar y fferm. Mae'r cyfan mewn cês pwrpasol i gadw'r cyfan gyda'i gilydd! Mae'r jig-so enfawr yn cynnwys darnau mawr a chadarn ar gyfer eu gosod gyda'i gilydd ar y llawr. Mae'r lluniau ar y jig-so yn cynnwys anifeiliaid fferm yn ogystal â pheiriannau'r fferm. Mae'r blociau yn cynnwys gwybodaeth am anifeiliaid ar y fferm, rhifau a llun mawr o ddyrnwr medi! Mae'r pecyn hwn yn rhoi cyfle i'r plant i chwarae yn greadigol yn ogystal â sicrhau oriau o ddysgu a mwynhad ar y fferm! Pecyn dwyieithog sy'n addas i blant iaith gyntaf a'r plant bach hynny sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Dyma beth ydy Llond trelar o hwyl! www.atebol.com



Bore Coffi'r Ysgol Gynradd

Ar ddydd Sadwrn, 27ain o Fedi, trefnwyd bore coffi gan rai o rieni'r Ysgol Gynradd yn y Neuadd Goffa. Bwriad yr achlysur oedd codi arian er mwyn gallu prynu offer newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac hefyd rhoi cyfle i rieni a phobl y pentref i weld y gwaith celf a chreffft a baratowyd gan y plant ar gyfer Sioe Tal-y-bont. Yn wir, roedd gwaith y plant yn arbennig, ac nid tasg hawdd oedd hi i'r beirniad, Eirian Gravelle i ddewis enillwyr. Diolch yn fawr iawn iddi am gytuno i feirniadu. Cyflwynwyd tusw o flodau iddi gan Siôn Nelmes a Heledd Davies. Cafodd yr enillwyr darian a thystysgrif. **DIOLCH YN FAWR I CAMBRIAN SCAFFOLDING AM FOD MOR GAREDIG Â NODDI'R ACHLYSUR.** Hoffai'r rhieni ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y bore. Llwyddwyd i godi tua £300.

Dyma restr o'r enillwyr:

Cylch Meithrin	Dosb. Derbyn	Bl 1
Billy Swanson	Tia Johnson Jones	Kiera Forster-Brown
Ruby Indeka	Heledd Davies	Katie Myring-Thomas
Steffan Ellis	Finn Davies a Nia Benham	Louisa Williams
Bl 2	Bl 3	Bl 4
Aled Jones	Seren Powell Taylor	Geraint Howard
Liam Kelly	Betsan Siencyn	Niamh O'Brian
Gemma Burnham	Matthew Edwards	Siwan Williams
Bl 5	Bl 6	
Robin Tomos	Elen Ebenezer	
Rachel Peterson	Ellie Margrave-Jones	
Esther Ifan	Sion Hopkins	

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Cyfarfu'r aelodau am y tro cyntaf y tymor yma ar nos Lun, 15 Medi dan lywyddiaeth Megan Mai. Roedd y Neuadd Goffa yn llawn gan fod aelodau pum cangen arall wedi eu gwahodd atom, sef Aberystwyth, Genau'r Glyn, Llanafan, Melindwr a Rhydypennau. Y wraig wadd oedd Debra Griffiths a fu'n cymryd rhan yn y rhaglen deledu *Coalhouse* gyda'i theulu, sef ei gŵr Cerdin a'u tri phlentyn. Cawsom orig ddifyr iawn yn ei chwmni pan fu'n ail-fyw eu profiadau yn y tŷ a hwythau yn byw yr un modd â theuluoedd yng Nghymru yn y flwyddyn 1927. Roedd yn dipyn o newid iddynt i fyw heb drydan nag unrhyw gyfleusterau modern yn y cartref, y gŵr yn gweithio yn y pwll glo, a'r plant yn cael eu haddysg yn Saesneg yn yr ysgol. Er hynny, er fod treulio mis o dan amodau 1927 wedi bod yn anodd iddynt ar adegau, roeddent i gyd yn falch iddynt lwyddo i wneud hynny gan eu bod wedi mwynhau'r profiad yn fawr. Talwyd y diolchiadau gan lywyddion pob cangen yn eu tro, a mwynhaodd pawb luniaeth bendigedig wedi ei baratoi gan aelodau cangen Tal-y-bont a'r Cylch.



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Nest Jenkins, groeso cynnes i'w chyd-aelodau i gyfarfod mis Medi, sef cyfarfod cyntaf y Cyngor wedi egwyl dros yr haf. Gyda'r Cynghorydd Megan Mai yn cynnig â'r Cynghorydd Glenys Edwards yn eilio, cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 28 Mehefin fel rhai cywir.

Ymhlith y materion yn codi o'r cofnodion hyn roedd ymateb gan yr Adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith yn sicrhau'r Cyngor Bro y gwneir asesiad manwl o'r Ffordd C1019 (o Dal-y-bont i Bont-goch) yn ystod yr Hydref. Nodir yn y llythyr bod yr adolygiad rhagarweiniol a gynhaliwyd yn y Gwanwyn wedi dod i'r casgliad nad yw'r ffordd yn peri digon o berygl i gyfiawnhau gwneud gwaith ar fyrder. Cytunodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn i gadw golwg ar y sefyllfa.

Adroddodd y Clerc bod panel gwybodaeth yn deillio o brosiect Ysbryd y Mwynwyr bellach wedi'i osod yn Bont-goch ac y byddai panel Tal-y-bont yn ei le erbyn 1 Hydref, sef noson lansio 'Dilyn Llwybrau'r Mwynwyr' yn Ward Ceulanamaesmawr, i'w chynnal yn y Llanfach, Taliesin.

Derbyniwyd ateb i'r ohebiaeth at y Swyddfa Bost Cyf yn gofyn am eglurhad o'u penderfyniad i gau'r gangen bresennol yn Nhal-y-bont. Nid yw'r llythyr yn taflu unrhyw oleuni ar eu penderfyniad, ac eithrio'r ffaith na chawsant gais gan Golwg Ar Bost i adolygu'r argymhelliad gwreiddiol parthed Tal-y-bont ymhellach. Nid chafwyd unrhyw wybodaeth chwaith am natur y gwasanaeth i'r dyfodol, er bod y Swyddfa Bost yn ffafrio gwasanaeth Partner. Deellir nad ydynt, hyd yn hyn, wedi llwyddo i gael unrhyw un i ddangos diddordeb.

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Sir Ceredigion yn hysbysu'r Cyngor bod ei gwrthwynebiad ar gynigion i adolygu'r ddarpariaeth o flychau ffôn o fewn y gymuned wedi'i basio ymlaen i BT. Roedd y Cyngor Sir hefyd am dynnu sylw at ddau gynllun a lansiwyd gan BT ar 2 Medi yn rhoi cynnig i gynghorau lleol ddiogelu blychau ffôn o fewn eu hardaloedd. Mae un cynllun, sef Mabwysiadu Ciosg (a gyfyngir i flychau coch traddodiadol), yn gwahodd awdurdodau lleol i brynu ciosg nad yw'n cynnig gwasanaeth ffôn, a hynny am gost o £1; mae'r ail gynllun, Noddi Ciosg, yn wahoddiad i awdurdodau lleol rentu ciosg gyda chysylltiad i'r rhwydwaith ffôn am £500 y flwyddyn. Pasiwyd i ohirio unrhyw benderfyniad tan gyfarfod mis Hydref.

Derbyniwyd ymateb i'r llythyr a anfonwyd at yr Adran Briffyrdd ynghylch yr arfer o barcio ceir i'w gwerthu'n breifat ar y llain tir ar bwys Ysgol Tal-y-bont. Roedd y Cyngor Sir yn rhannu ein pryder am ddiogelwch ac wedi gosod rhybudd ar y ceir i'w symud.

Cyflwynodd y Cynghorydd Enoc Jenkins adroddiad cadarnhaol iawn ar oblygiadau dogfen ymgynghorol Llywodraeth y Cynulliad, *'Datblygiad Cynaliadwy Ardaloedd Gwledig'*. Wedi trafodaeth fer, pasiwyd i drefnu Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor i lunio ymateb ffurfiol nos Fawrth 7 Hydref.

Adroddwyd bod y Cyngor wedi derbyn llythyr o'r Cyngor Sir yn cadarnhau y telir sylw i'r bont droed dros Nant y Perfedd rhwng Moelglomen a Bwlchglas. Pasiwyd i anfon llythyr atynt yn gofyn am amserlen i wneud y gwaith atgyweirio.

Mae'r Awdurdod Addysg wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad ar ddatblygu addysg yng Ngheredigion hyd at 2020. Gall yr opsiynau a gynigir yn y ddogfen ymgynghorol effeithio yn y dyfodol ar y dull o lywodraethu a rheoli Ysgol Gymunedol Tal-y-bont ac o bosib yn y tymor hir ar ei statws. Er mwyn i'r Cynghorwyr gael cyfle i ystyried oblygiadau'r Cynllun Datblygu, pasiwyd i roi'r eitem

ar agenda cyfarfod mis Tachwedd. Yn y cyfamser, byddai'r dogfennau'n cael eu cylchredeg ymysg yr aelodau.

Cyflwynodd y Clerc grynoded o gasgliadau ac argymhellion cychwynnol Prosiect Peilot Cerbydau Hamdden Mynyddoedd y Cambria. Gan fod hwn yn fater o bwys, a dyddiad cau'r ymgynghoriad i ddigwydd cyn cyfarfod rheolaidd nesaf y Cyngor, pasiwyd i'w drafod ymhellach fel rhan o'r Cyfarfod Arbennig ar 7 Hydref.

Darllenwyd rhybudd gan Adran Priffyrdd y Cyngor Sir y bydd rhan o ffordd U1090 (sef y darn dros argae Nant y Moch) ar gau rhwng 8 y bore ar 13 Hydref 2008 hyd 5 y pñawn ar 2 Ionawr 2009.

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhian Evans gynnwys holiadur a baratowyd gan Fwrdd Gwasanaeth Lleol Cyngor Ceredigion yn gwahodd y Cyngor i gyflwyno'i flaenoriaethau ar gyfer Ceredigion am y 15 mlynedd nesaf yn y meysydd canlynol: Amgylchedd o Ansawdd Uchel; Cymunedau Cryfach; Dyfodol Dwyieithog; Dysgu Gydol Oes; Economi Llwyddiannus; Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Cytunodd y Cynghorydd Rhian Evans i lunio ymateb drafft ar ran y Cyngor.

Derbyniwyd llythyr gan Brif Weithredwr Cyngor Ceredigion ar fater trefniadaeth yn achos Cynghorwyr Cymuned sydd am ollyngiad i siarad a phleidleisio ar fater lle bo ganddynt fuddiant personol. Bellach, mae Is-bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir am ganiatáu i Gynghorwyr gyflwyno'u cais yn bersonol i aelodau'r Is-bwyllgor os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Derbyniwyd llythyr pellach gan y Prif Weithredwr yn ein hysbysu bod y Cyngor Sir yn bwriadu cynnal Arolwg o'r Ffiniau Cymunedol o fewn Ceredigion er mwyn penderfynu pa newidiadau (os o gwbl) i'w gwneud i'r canlynol: (i) y ffiniau (ii) Trefniadau Etholiadol. Gan mai 15 Rhagfyr yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau, pasiwyd i drafod y mater ymhellach yng nghyfarfod mis Hydref.

Derbyniwyd cadarnhad bod y ceisiadau cynllunio canlynol wedi eu derbyn gan yr Awdurdod Cynllunio dros fisoedd yr haf: estyniadau i 92 Maes-y-deri, Argoed Fawr, Llwynadda a 7 Maes-y-deri. Trafodwyd cais i godi annedd yng ngardd yr Hen Ficerdy, Bont-goch, ynghyd â chodi mastiau mesur gwynt i'r gogledd o Gerrig yr Hafan ac i'r de o Esgair Fraith.

Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2010 - Ardal Ceulanamaesmawr

Cofiwch gadw golwg yn yr wythnosau nesaf am brintiau arbennig o Dal-y-bont gan Ruth Jên. Mae Ruth wedi ei chomisiynu'n arbennig gan Bwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd i greu 100 print cyfyngedig a fydd ar werth erbyn y Nadolig. Bwrierid gwerthu'r gwreiddiol hefyd er budd yr apêl. Ceir rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf o Bapur Pawb.

Age Concern - Ceredigion CLWB CINIO TAL-Y-BONT

YDYCH CHI'N MWYNHAU CYMDEITHASU,
Cael hwyl, cadw'n iach, mwynhau bwyd blasus?
YMUNWCH A NI - CLWB CINIO TAL-Y-BONT.
CWRDD UNWAITH Y MIS YN Y LLEW DU

Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â Jane Raw-Rees, Swyddfa Aberystwyth, Cyngor Henoed Ceredigion, Yr Hen Ysgol Gymraeg, Ffordd Alexandra, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1LE.
Ffôn: (01970) 615151. E-bôst: jrr@ceredigionageconcern.fsnet.co.uk
Elusen Cofrestredig1042789

A DAVIES
TRYDANOL

Tŷ Murben Isaf
Derwenlas
MACHYNLLETH
Powys SY20 8SR
ALAN DAVIES Ffôn 01494 781219

Salon Leri

Polis apurdd a drin
gwasth gan Richard

Profesiyn a Mudiad

Alun Tŷm

Llan-Guon

01970 612 674

11

'Dilyn yn llwybrau'r Mwynwyr'


Prosiect adfywio cymunedol oedd Ysbryd y Mwynwyr wedi ei leoli yng Ngogledd Ceredigion gyda'r bwriad o ddathlu a chofnodi treftadaeth mwyngloddio metel unigryw'r ardal er budd adfywiad economaidd a diwylliannol. Rheolwyd y prosiect gan Gyngor Sir Ceredigion ac fe'i arianwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Rhaglen Amcan 1 Ewropeaidd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Yn ardal Ceulanamaesmawr penderfynwyd mynd ati i hybu ymwybyddiaeth o dreftadaeth mwyngloddio'r ardal gan fanteisio ar yr etifeddiaeth gyfoethog o olion sydd yma. Mae rhai yn dyddio yn ôl i Oes yr Efydd a rhai mor ddiweddar a dechrau'r ugeinfed ganrif. Nid yn unig codi ymwybyddiaeth ymwelwyr a'r cerddwyr niferus er mwyn hybu'r economi leol ond creu diddordeb hefyd ymysg bobl leol yr ardal.

Aed ati i gofnodi hanesion a hel gwybodaeth gyda chymorth cwmni Trysor a chefnogaeth Ecodyfi ac mae'r cynllun yn ddyledus iawn i gefnogaeth trigolion yr ardal a'r cynghorau cymuned. Mewn cyfarfod yn Llan Fach, Taliesin ar nos Fercher, 1 Hydref gwelwyd ffrwyth y gwaith hwnnw pan lansiwyd canlyniadau'r gwaith. Cynhyrchwyd 5 panel gwybodaeth i gyd i'r ardal ac fe'i lleoli'r yn Ffwrnais, Caffi Clettwr, Tre'r Ddôl, ar wal Ysgol Llangynfelyn, yn Nhal-y-bont ac ym Montgoch. Fe fydd Ysgolion Tal-y-bont a Llangynfelyn yn derbyn copïau'r un o'r pum panel at eu defnydd.

Cynhyrchwyd CD yn ogystal yn cofnodi hanesion mwyngloddio o'r ardal gyda chyfraniadau gan nifer o'r trigolion lleol, hanner yn y Gymaraeg a'r hanner arall yn y Saesneg. Gwnaed y gwaith yma gan Catrin M S Davies. Fe fydd plant ysgolion Tal-y-bont a Llangynfelyn yn derbyn copi'r un o'r CD i'w gadw. Cynhyrchwyd taflen wybodaeth am y llwybrau hefyd at ddefnydd busnesau lleol a gwefan o waith Nigel Callaghan, Taliesin.

Yn Llan Fach cafwyd cyflwyniadau diddorol gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn a wnaeth gymaint o waith caled yn dwyn y prosiect at ei gilydd, gan Nigel Callaghan, Paul Sambrook o gwmni Trysor, Catrin M S Davies, Lisa Thomas. Bu dau o ddisgyblion Ysgol Gynradd Tal-y-bont yn darllen am waith prosiect mwyngloddio a cerdd a gyfansoddwyd yn dilyn ymweld â Llywernog sef Esther Llwyd Ifan a Robin Tomos. Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd te blasus. Cofiwch edrych allan am y paneli gwybodaeth pan fyddwch yn mynd o amgylch yr ardal ac achubwch ar y cyfle i ddysgu mwy am ein treftadaeth werthfawr.



Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 180627

Diwrnod Agored Penwern



Wedi wythnosau gwlyb yr haf roedd yr haul yn gwenu am unwaith ar ddydd Sul, 21 o Fedi pan gynhaliwyd diwrnod agored ar fferm Penwern, Tal-y-bont. Yn flynyddol fe fydd Clwb Bridwyr De Cymru o Gymdeithas y Gwartheg Duon yn mynd ati i drefnu dau ddiwrnod agored, un lle gall yr aelodau ymweld â buches benodol a diwrnod arall i gynnal cystadleuaeth farnu. Wedi ymweliad yn gynharach eleni gyda buches Machraeth, Llanfachraeth, tro teulu Penwern ar gais Cadeirydd y clwb Meirion Botwood, oedd cynnal y barnu.

Daeth nifer dda ynghyd ar y prynhawn dydd Sul a barnu brwd ar y pedair heffer a'r pedwar bustach a Huw Jones, Cwmcae yn beirniadu. Cipiwyd y wobwr am y barnu gorau dan 26 oed gan Geraint Cerrigcarannau. Wedi'r barnu cafwyd cyfle i weld y fuches yn ei chynefin a'r heffrod a'r bustych yn edrych ar eu gorau wrth i'r ymwelwyr ryfeddu at y golygfeydd godidog dros ardal eang ac aber yr afon Ddyfi. Cafwyd cyfle hefyd yn ystod y prynhawn i weld Dafydd wrth ei waith yn trin y peiriannau coed mewn sied bwrpasol at y gwaith.

Ni fu modd cynnal diwrnod agored y llynedd oherwydd y Clwy Traed a'r Genau ac o'r herwydd gwelwyd yr aelodau yn gwneud yn fawr o'r cyfle i ddod at ei gilydd a chymdeithasu. Cawsant wledd o de i ddiweddu'r ymweliad wedi ei baratoi gan Sue a'r teulu a'i chynorthwyyr.

Braf yw medru nodi fod Bob wedi ei ethol yn Gadeirydd y Gymdeithas Gwartheg Duon a hynny am y trydydd tro yn ystod mis Medi. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Y Fframdy

Mae'n gweithdy yn ddaparu
gwahanueth fframio dyllwynnau
o'r safon uchel.

Cwch ddarfu o amrediad eang o
daplau gored a fframiau.

Bydd y fframdy'n gallu ddarparu ar
gyfer ar gyfer anghenion unigol.

Y Fframdy Glanell, Y Borth,
Ceredigion SY24 3PA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846558

Dofednod
Cwmtynant



Dofednod ffres o fferm leol.
Archebwch ŵydd, twrci, hwyaden
neu gwy i'w erbyn y Nadolig
Cysylltwch â Dilwyn, Marion,
Rhydian neu Eigan

Tynant, Tal-y-bont 01970 832 257

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theddi Ystafelloedd Ffiochi
Gwasanaeth Boeler Olau

01970 832129
07761 917235



(rhes ôl) Hefin Hopkins, Gruffydd Jones, Anna Davies, Garmon Nutting, Dafydd Southgate, Rhian Jones
(rhes flaen) Carwyn Hughes, Josh Bradley, Ryan Hughes, Peter Jones, Gwenno Evans, Ceri Morgan, Nia Jones

Clwb Ieuenctid Tal-y-bont

Ar nos Wener 3ydd Hydref, aeth criw ohonom o Glwb Ieuenctid Tal-y-bont i nofio ym Mhwll Nofio Broddyfi, Machynlleth. Cawsom hwyl a sbri, yn enwedig ar y llithren ddŵr. Diolch i Dai, Ceri a Catrin am drefnu'r noson. Rydym yn cwrdd bob nos Wener yn ystod tymor yr ysgol rhwng saith a naw o'r gloch yn y Neuadd Goffa. Rhwng nawr a'r flwyddyn newydd, mae amryw o weithgareddau wedi eu trefnu, gan

gynnwys noson gemau, bingo, wal ddringo, coginio, noson arswyd ac ystlumod yn Ynyshir a llawer mwy.
Er mwyn i ni gael parhau fel Clwb, mae'n rhaid i ni gael mwy o oedolion i gynorthwyo. Plis ffoniwch Dai Nutting ar 832027 neu Catrin Mason ar 832075.

Cofio Steven

Daeth tyrfa o chwaraewyr a chefnogwyr ynghyd yn y Llew Du yn ystod yr haf i gystadlu yn Nhwrnament Coffa Ddartiau Steven Southgate.
Cynhaliwyd y twrnament am y pedwerydd flwyddyn eleni gyda ffrindiau a theulu Steven yn dod ynghyd i'w goffhai a chodi arian at achosion da.
Eleni aeth y £325 a godwyd i Ward Meurig, Ysbyty Bronglais (Adran cancr). Hoffai Bob a'r teulu ddiolch i bawb am eu cefnogaeth parod ac i Mark a Vicky am eu croeso twymgalon yn y Llew Du.

- Dynion:** 1. Richard Jones (+ cwpan 180), 2. Ken Southgate, 3. Mark Ebenezer, 4. Sam Ebenezer
Merched a phlant: 1. Hefin Hopkins, 2. Lisa Southgate, 3. Jen Jenkins, 4. Sam Ebenezer.



Cwrdd diolchgarwch yng Nghapel Bethesda, Tynant gyda CFFI Tal-y-bont

Nabod

Gethoch chi wyliau braf? Digon symol oedd y tywydd ond efallai i chi lwyddo i fwynhau'r ychydig ddiwrnodau o haul a gawsom ac mae'n reit debyg i chi deithio i gael y mwynhad hynny. Teithio yw arbenigedd yr un y down i nabod y tro hyn - Gerwyn Jones, Dôl Pistyll Tal-y-bont ac yn ei waith mae Gerwyn yn Swyddog Datblygu i Bartneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian. Mae'r bartneriaeth rhwng siroedd Ceredigion, Powys a Gwynedd a chwmni Trenau Arriva Cymru ac mae cyfrifoldebau Gerwyn yn cwmpasu'r rheilffordd o Aberystwyth i Amwythig ac o Fachynlleth i Bwllheli. Mae ganddo felly batsh sylweddol a'i dasg yw hyrwyddo'r rheilffyrdd hyn fel modd i deithio o un man i'r llall a'i gwneud nhw yn atyniad i dwristiaid.

Yn ôl Gerwyn mae 'na ddwy agwedd i'w swydd. Yn gyntaf rhaid treulio tipyn o amser yn marchnata a denu sylw. Mae wedi bod yn gyfrifol am gynllunio a pharatoi pentwr o ddeunydd marchnata - taflenni, amserlenni a phosteri. Mae un daflen yn dangos pedwar llwybr cerdded gerllaw'r gorsafoedd ac mae un taflen yn eich tywys ar hyd llwybr o Gaersws i'r Drennewydd gan nodi'r atyniadau diddorol. Cynhyrchwyd a gwerthwyd cyfres o bosteri a chardiau post yn dangos rhai o olygfeydd gogoneddus y Canolbarth a'r arfordir - gyda'r elw ar werthiant y poster i mynd i elusennau lleol. Cynllun arall o law Gerwyn yw taflen gwis i blant - ateb cwestiynau yn seiliedig ar yr hyn ma' nhw'n weld wrth i'r trên wibio o un orsaf i'r llall. Roedd Gerwyn hefyd yn ymwybodol o boblogrwydd y rheilffyrdd bychan o fewn y patsh - Ffestiniog, Tal-y-llyn a Dyffryn Rheidol - ac mae nawr yn bosib prynu tocynnau sy'n rhoi'r hawl i chi deithio drwyddo o'r lein fawr i'r trenau bach. Cyfeiriwyd at dywydd gwael yr haf eisoes, ond yn ôl Gerwyn, tra bod atyniadau eraill wedi dioddef yn sgîl y tywydd gwael mae wedi bod yn dymor da i'r trenau. Os nad oedd yn ddigon braf i fod ar y traeth roedd ymwelwyr yn chwilio am bethau gwahanol - gan gynnwys taith ar y trên. Yn ogystal â'r dulliau hyn o ddenu sylw mae Gerwyn ei hun yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd o bob math. Yn ystod tymor y gaeaf mae'n gyson allan gyda'r hwyr yn siarad â changhennau o Ferched Y Wawr, Sefydliad y Merched a grwpiau eraill. Mae e hefyd wedi treulio diwrnod cyfan yng Ngorsaf Marylebone Llundain mewn gwisg draig goch, yn dosbarthu taflenni ac yn gweithio'n galed i greu cwstwm i reilffyrdd y Cambrian. Pan ofynnais a oedd e'n meindio gwneud hyn roedd yr ateb yn gall ac yn barod - o fewn gwisg y ddraig doedd neb yn ei adnabod ac felly doedd dim gwahaniaeth!

Mae'r ail agwedd yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr cyson y rheilffyrdd ond unwaith eto rhaid marchnata a denu mwy o deithwyr. Yma, mae Gerwyn yn paratoi straeon a datganiadau i'r wasg yn sôn am y gwelliannau - er enghraifft y sustem signalau newydd, mwy o lecynnau pasio i'r trenau a'r ffaith y bydd y trenau o Aberystwyth o fis Rhagfyr ymlaen yn dod i ben eu taith yn Birmingham International yn hytrach na gorsaf New Street. Bydd yr olaf yn hwyluso trefniadau teithwyr sy'n hedfan o Faes Awyr Birmingham ac yn bwysicach yn sicrhau gwell prydlondeb a diflaniad gobeithio'r profiad o golli trên Aber ar eich taith yn ôl o Lundain. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth o Aberystwyth yn rhedeg bob dwy awr ond y gobaith yw cynnal gwasanaeth bob awr ac yn y pen draw cynnig gwasanaeth uniongyrchol o Aber i Lundain. Ym marn Gerwyn mae'r trenau yn hanfodol i lu o gwsmeriaid - plant ysgol a myfyrwyr - a dylid cofio fod y lein yn ddolen allweddol i'r Brifysgol yn Aberystwyth ac yn arbennig i fyfyrwyr tramor sy'n llwyr ddibynnu ar y trên. Ffactor arall yw'r pwyslais cynyddol ar deithio gwyrdd - y galw arnom i adael ein ceir a defnyddio ffyrdd eraill o fynd o fan i fan - a thrwy hynny wrth gwrs ostwng y bondigrybwyll droedle carbon.

Yn ei waith mae Gerwyn yn gyson symud o un agwedd i'r llall a rhaid sylweddoli fod y naill yn gorgyffwrdd â'r llall. Drwy gyhoeddusrwydd mae pobl yn teithio ar y lein i ymweld â'r Ganolfan Dechnoleg Amgen gerllaw Machynlleth. Mae ei taith ar yr un pryd yn un 'werdd' ac o ganlyniad i'w hymweliad maent yn dysgu mwy am dulliau amgen o gynhyrchu a defnyddio ynni.



Gerwyn yw'r cyntaf i gydnabod nad yw'r swydd - mwy nag unrhyw swydd arall - yn fêl i gyd. Mae'n ymwybodol fod 'na gwyno ar y gwasanaethau - trenau'n llawn, trenau'n hwyr ag ati - ond yn dadlau'n gryf mae'r ffordd orau i sicrhau gwelliannau yw denu mwy o gwsmeriaid. Mwy o gwsmeriaid, mwy o gyllid a thrwy hynny cryfhau'r ddadl dros fwy o grant a chynhaliath o'r Cynulliad yng Nghaerdydd.

Beth mae e'n mwynhau fwyaf am y gwaith? Y ffaith nad oes un diwrnod yn debyg i'r llall a bod pob diwrnod yn dod a'i her a'i broblemau. Weithiau fe fydd yn ei swyddfa yng Ngorsaf Machynlleth drwy gydol y dydd, ar adegau eraill fe fydd e'n teithio ar y trenau yn dosbarthu taflenni, yn siarad ac yn sgwrsio gyda'r cwsmeriaid. A'i ddyhead? Gwneud llai o'r cyntaf - sgwennu a pharatoi cynlluniau strategol - a mwy o'r ail - allan ar y trên neu yn y gorsafoedd, neu fel dwedodd Gerwyn ei hun, llai o sgwennu, mwy o neud.

Mae Gerwyn yn byw yn Dôl Pistyll gyda'i wraig Non a'u merch fechan Glain Erin sy nawr bron yn flwydd oed. Pan ma' gyda fe amser hamdden mae'n hoffi pysgota, cerdded a chymdeithasu. A shwt ma'r Swyddog Datblygu Rheilffordd y Cambrian yn teithio i'w swyddfa ym Machynlleth? Credwch neu beidio, ar ei feic! Wel, dyw'r trên ddim wedi cyrraedd gorsaf Tal-y-bont eto, nac yn debygol o wneud ac os nad oes trên ar gael, wel y beic amdani!

GIE

James Memorials
Am
**GOFIEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SŴPON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**
Gofynnwch am bantiff
rheid ac am ddîm
James Memorials
Vicange Crossing,
Llandra, Bow Street
Ffôn: (01975) 800 111

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**

Iwan Jones, Technegol Ffawceniol
Colwynon, Telgar, Ceredigion SY16 6LH
01478 825760

C.FF.I Tal-y-bont a’r Cylch

Cafwyd noson gystadleuol a hwyliog ar nos Fawrth y 9fed o Fedi pan aethpwyd fel criw i hel trysor drwy goed Cyneinog, a fyny wedyn i bentref Bontgoch ac yn ôl i’r Llew Gwyn yn Nhal-y-bont am blatiaid o sglodion haeddianol! Diolch yn fawr iawn i Dilwyn a Marion, Tynant am y trefniadau!

Mynychodd rhai o’r aelodau Gyfarfod Blynyddol CFFI Cymru yn Aberystwyth ar yr ail benwythnos o Fedi. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Sir yr wythnos ganlynol ar nos Fercher, yr 17eg o Fedi yn neuadd Ciliau Aeron pan ddaeth llywyddiaeth Gwen (Tanyrallt gynt) i ben. Llongyfarchiadau mawr iddi ar dymor llwyddiannus iawn fel Llywydd y Sir.

Gyda chystadleuaeth sirol gynta’r tymor ar fin cyrraedd - cafwyd noson o chwaraeon dan do amrywiol ar yr 16eg, a’r ennillwyr wedyn yn mynd ymlaen i gynrychioli’r Clwb yn chwaraeon dan do’r Sir a gynhaliwyd eleni yn ôl yr arfer yn Llanddewi Brefi ar y 26ain. Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gymryd rhan ac i John Penbanc ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth y pŵl.

Aeth criw bach ohonom lawr i Glwb Rygbi Aberaeron ar nos Wener y 19eg i hyrwyddo teithiau tramor y mudiad. Mae pob clwb yn cael y cyfle i hyrwyddo gwlad neu ardal benodol – hyrwyddo talaith Ulster yn Iwerddon oedd tasg y clwb y tro yma. Diolch arbennig a da iawn i Mererid Cwmudw am wneud arddangosfa gampus mewn byr o amser!



Canlyniad BLE YN Y BYD mis Medi
Chris Fuller Pandy, FFwrnais, Machynlleth – tocyn llyfrau £10.00 iddo ef.
Ateb Medi: ar y ffordd heibio Gwesty Ynyshir, Egwylsfach ger mynedfa Canolfan yr RSPB Glandyfi.



Mae paratoadau ar gyfer Eisteddfod y Sir ar y gweill, gyda’r gwaith cychwynnol wedi dechrau eisoes yn y cyfarfod misol ar y 23ain. Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar Hydref 30ain a Tachwedd 1af ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan. Er gwybodaeth fe fydd yr Eisteddfod yn cael ei gwe-ddarlledu o 6pm hyd at y diwedd ar y nos Sadwrn - cyfle i rheina ohonoch sy’n methu bod yno i gael blas ar y cystadlu.

Penderfynwyd cael trip hwylus ddydd Sul ola’r mis i saethu clai ym Mrynmelyn, Llanwrin a galw wedyn am sglodion ym Machynlleth cyn cychwyn am adre. Cynhaliwyd Sosial Fawr nos Fawrth, 30ain o Fedi pan ddaeth clybiau Llangwryfon a Thrisant i ymuno a ni yng nghwmni Ifor. Dangoswyd doniau coginio’r aelodau efo gwledd o sosej rôls wedi hynny!

Wedi glaw trwm dros y penwythnos cyntaf o fis Hydref, bu bron rhaid nofio i Gapel Bethesda, Tynant ar gyfer ein Cwrdd Diolchgarwch ar y dydd Sul. Cafwyd anerchiad pwrpasol i gynulleidfa o bron i 50 gan Brian Davies, Taliesin. Diolch yn fawr iawn iddo ac i aelodau’r Capel am ein gwesteio. Dwi’n credu bod e’n addas diolch i’r *Merlo* wnaeth achub y dydd i glirio’r llifogydd!

Hoffwn atgoffa unrhyw riant neu gyn-aelod fod croeso mawr i chi ymuno â ni unrhyw noson – cadwch olwg ar y dyddiadur yn Papur Pawb neu cysylltwch ag un o’r swyddogion.

Eleri James



Ble yn y byd?

Sut i chwarae

Ble yn nhalgylch Papur Pawb mae’r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb

Enw

Cyfeiriad

Côd Post

Rhif Ffôn

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn 7 Tachwedd.

Gwobr: Tocyn Llyfr £10

i’r ateb cywir cyntaf allan o’r het.



Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont


Mae tymor pêl-droed ieuenctid Tal-y-bont ar ardal wedi dechrau unwaith yn rhagor, ac am y tro cyntaf erioed mae gan Dal-y-bont dimau yn cystadlu ar bob lefel yng nghynghreiriau iau Ceredigion. Bellach mae gennym dri tîm yn yr adran dan 11 o Gynghrair Iau Aberystwyth ar Ardal sef Tal-y-bont, Teirw Tal-y-bont a Teriys Tal-y-bont. Ceir tîm arall dan 13 oed gyda Keith Hughes a Wendy Jones yn rheoli. Hyfforddir y ddau dîm dan 15 oed gan Mark Ebenezer, Ceri Jones, Sian Ffrancon, Simon Champion ac Alun Thomas ac sydd wedi eu henwi fel a ganlyn, Teigars Tal-y-bont a Tarannau Tal-y-bont. Yn glo ar y cyfan, ac am y tro cyntaf erioed mae yna dîm dan 17 oed yn cynrychioli Tal-y-bont. Caiff y tîm ei hyfforddi gan Clive Jackson gan chwarae yng nghynghrair dan 17 oed Ceredigion yn erbyn timau fel Castell Newydd Emlyn, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan ymysg eraill.

Dechreuodd y tymor gyda bang gyda diwrnod bendigedig lawr ar gaeau Blaendolau ar ddydd Sul y 14eg o Fedi. Bu'r timau i gyd yn cystadlu pan gynhaliwyd gŵyl bêl-droed Gary Pugh am y tro cyntaf y diwrnod hwnnw. Trefnwyd y twrnamaint gan Glwb Pêl-droed Llanilar ar y cyd a Chynghrair Iau Aberystwyth er cof am Gary a fu farw yn frawychus o sydyn yn ystod y gwanwyn. Roedd Gary yn chwarae rhan amlwg yng ngweithgareddau pêl-droed pentref Llanilar, yn arbennig ymysg y criw iau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd y twrnamaint o'r herwydd yn deyrnged deilwng iawn iddo.

Bu cystadlu brwd gan y timau i gyd yn ystod y twrnamaint ond sêr y sioe yn ddi-os oedd Teigars Tal-y-bont yn y gystadleuaeth dan 15. Llwyddodd y tîm i ddod i'r brig mewn cystadleuaeth hynod gystadleuol gan ennill yn erbyn yr hen elynion Bow Street. Mewn ffeinal llawn tensiwn cipiwyd y cwpan yn dilyn ciciau o'r smotyn. Llongyfarchiadau mawr i Hefin Hopkins a lwyddodd i arbed dwy o giciau Bow Street o'r smotyn a fu'n gyfraniad allweddol i lwyddiant Tal-y-bont.

Yng ngemau agoriadol y Gynghrair am y tymor mae'r tîm dan 17 wedi dechrau trwy golli tair, yn erbyn Llanbed, Felin-fach ac Aberteifi. Rhaid cofio serch hynny mai dyma'r tro cyntaf i'r bechgyn chwarae ar y lefel yma ac y bydd modd i bob un ohonynt chwarae ar y lefel yma flwyddyn nesaf yn ogystal. Yn y gynghrair dan 15 mae Teigars Tal-y-bont wedi dechrau trwy guro Tregaron o 7 gôl i 2 ac roedd Tarannau

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com



ylolfaf
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfa.com

Tal-y-bont yn anlwcus wrth iddynt ildio dwy gôl hwyr yn ei gêm agoriadol yn erbyn Llanilar. Llwyddodd y tîm dan 13 i agor y tymor gyda buddugoliaeth ysgubol yn erbyn Machynlleth gan ennill o 9 gôl i 1 gyda Luke Davies yn sgorio 4. Dechrau arbennig yn wir. Yn olaf ar y lefel cynradd dechreuodd Tal-y-bont gyda buddugoliaeth o 3-0 yn erbyn Tîm Iau Llanilar gyda'r Teirw ar Teriys yn colli ei gemau agoriadol hwythau o 6-2 a 3-1. Estynnwn ein diolch i Karen Evans am barhau i helpu gyda hyfforddiant y timau dan 11 er nad oes gennym dîm merched y tymor hwn. Hyderwn y bydd modd cael tîm merched at ei gilydd cyn bo hir. Estynnwn ein diolch hefyd i Dai Jones-Hughes sydd wedi gwirfoddoli i fod yn hyfforddwr unwaith eto. Roedd Dai yn hyfforddwr gyda chlwb Tal-y-bont rhyw 7 i 8 mlynedd yn ôl ac rydym yn falch iawn o fedru ei groesawi yn ôl i'n plith.

Yn olaf hoffwn ddymuno'r gorau i'r hyfforddwyr, y chwaraewyr ar cefnogwyr am y tymor i ddod ac edrychaf ymlaen at dywydd da am newid.

Brian Richards



Tal-y-bont Teigars dan 15 Enillwyr Cwpan coffa Gary Pugh